29 Mai 2009
DATGANIAD I'R WASG

Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru 2009

Yn arbennig i ddathlu deng mlwyddiant Ysgoloriaeth Bryn Terfel, agorwyd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Bae Caerdydd 2009 mewn steil gan Bryn Terfel ar nos Sul, 24 Mai yn Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru.

Yn rhannu'r llwyfan â Bryn Terfel yn y cyngerdd mawreddog oedd cyn enillwyr yr ysgoloriaeth gan gynnwys Mirain Haf, yr enillydd cyntaf, y ddawnswraig, Lowri Walton, y sacsoffonydd Rhys Taylor a'r feiolinydd Rakhi Singh.

Cynhelir cystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel eleni nos Sadwrn 10 Hydref 2009 yn Theatr Weston, Canolfan Mileniwm Cymru. Cawn wybod cyn diwedd y dydd yfory pa wyth cystadleuydd o Eisteddfod Bae Caerdydd fydd yn cael eu gwahodd i ddychwelyd i gystadlu am yr ysgoloriaeth.

Bydd yr enillwyr yn cystadlu am £4,000 i'w ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant pellach mewn maes arbenigol. Yn cystadlu am y wobr ariannol bydd yr wyth buddugol yn y cystadlaethau dan 25 oed fel a ganlyn; Cyflwyniad Theatrig, Llefaru Unigol, Unawd allan o Sioe Gerdd, Unawd Offerynnol, Unawd, Unawd Alaw Werin, Unawd Cerdd Dant a Dawns Werin Unigol.

Cynhelir Dosbarthiadau Meistri ar gyfer yr wyth cystadleuydd buddugol yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd ar 5 a 6 Medi 2009, lle y byddant yn derbyn hyfforddiant yn ogystal â chyngor gan arbenigwyr yn eu maes.

Y gantores dalentog, Rhian Lois Evans enillodd yr Ysgoloriaeth y llynedd. Meddai Rhian;

''Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur tu hwnt, a heb os, yn un a fydd yn aros yn y cof am byth. Mae Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru wedi bod o help mawr i mi, a dwi heb os wedi derbyn cyfleoedd yn sgil y gystadleuaeth na fyddwn wedi eu derbyn fel arall.

Braint o'r mwyaf oedd cael perfformio gyda chyn enillwyr y gystadleuaeth, ac wrth gwrs Bryn Terfel ar lwyfan godidog Theatr y Western nos Sul. Mae fy niolch yn enfawr i Urdd Gobaith Cymru a Bryn Terfel am y profiad gwerthfawr hwn. Bydd y wobr yn help mawr ar gyfer fy nghwrs ôl radd yng Ngholeg Brenhinol Llundain fis Medi.''

Yn ôl Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru;

''Pleser o'r mwyaf oedd cael bod yn bresennol yn Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru nos Sul. Roedd y safon a welwyd ar y llwyfan yn arbennig o uchel ac yn brawf bod yr ysgoloriaeth wedi meithrin disgyblion eithriadol o ddawnus dros y blynyddoedd. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Bryn Terfel am ei gefnogaeth i'r Ysgoloriaeth ac am lwyfannu cyngerdd cystal oedd heb os nac oni bai yn goron ar ddeng mlynedd gofiadwy iawn."

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw'r ŵyl ieuenctid mwyaf yn Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2010 ar dir Llanerchaeron yng Ngheredigion, ac Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe.

29 May 2009

PRESS RELEASE

2009 Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru Scholarship

To celebrate ten years since the Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru Scholarship was first established; Bryn Terfel opened the 2009 Cardiff Bay National Urdd Eisteddfod on Sunday night, 24 May in Wales Millennium Centre's Donald Gordon Theatre.

Joining Bryn Terfel to stage the spectacular concert were previous winners of the scholarship including the very first winner, Mirain Haf, dancer Lowri Walton, saxophonist Rhys Taylor and violinist Rakhi Singh.

The scholarship competition this year will be held on Saturday night, 10 October 2009 in Wales Millennium Centre's Weston Theatre. By the end of the competitions tomorrow, we will know which eight contestants from Cardiff Bay Urdd Eisteddfod will be invited to compete for the Scholarship.

The winners will be competing for £4,000 to be used as further training in a specialised field. Competing for the financial prize will be the eight winners from the following under 25 competitions; theatrical performance, recitation, song from a musical, instrumental solo, solo, folk singing solo, cerdd dant solo, and the individual folk dance.

Master classes will be held for the eight successful competitors in the Urdd Centre, Cardiff Bay on 5 and 6 September 2009, where they will receive training as well as advice by experts in their fields.

The talented singer, Rhian Lois Evans won the Scholarship last year. Says Rhian;
''It has been a very busy year, and one that will no doubt stay with me forever. Bryn Terfel Scholarship has helped me greatly, and I have certainly had opportunities following the competition, that I would not have received otherwise.

It was a real privilege to have the opportunity to perform with the scholarship's previous winners, and Bryn Terfel on Donald Gordon Theatre's magnificent stage on Sunday night. I would like to thank Urdd Gobaith Cymru and Bryn Terfel for this worthwhile experience. The scholarship will contribute towards my postgraduate course at London's Royal College in September.''

Says Efa Gruffudd Jones, Urdd Gobaith Cymru's Chief Executive;
''It was a great pleasure to be present at Wales Millennium Centre's Donald Gordon Theatre on Sunday. The standard on stage was extremely high and proves that many talented individuals have benefited from the scholarship over the years. I would like to thank Bryn Terfel for his continuing support and for staging a concert that was without a doubt a fitting birthday celebration to crown ten wonderful years.''

Ends

For more information contact Siân Eleri Davies on 07976 330360 or Manon Llwyd on 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest youth festivals in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00am - 5.00pm and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in the grounds of Llanerchaeron in Ceredigion in 2010 and in Swansea in 2011.